OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 1192 (Cy. 243)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Tachwedd 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *20 Tachwedd 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Rhagfyr 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**), ac a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 143(1) a 146(6) o'r Ddeddf honno, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Rhagfyr 2018 ond mae'n cael effaith o 1 Ebrill 2019.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygiadau i Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

**2.** Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn lle erthygl 5 rhodder—

"**5.** At ddibenion adran 43(4B)(b)(i) o Ddeddf 1988, y swm a ragnodir ar gyfer hereditament yw—

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd is-adran (4B) o adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd is-adran (9)(b) o adran 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan adran 61(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, erthygl 2, Atodlen 1). Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2017/1229 (Cy. 293).

(a) £12,000, neu

(b) £100,000 pan fodlonir yr amodau gofal plant yn erthygl 8."

**4.** Yn erthygl 8(d), yn lle "£20,500" rhodder "£100,000".

**5.** Yn erthygl 11—

(a) ym mharagraff (2), yn lle'r tabl rhodder—

"**Tabl**

| *(1)*<br><br>*Erthygl* | *(2)*<br><br>*Gwerth Ardrethol*<br><br>*(£)* | *(3)*<br><br>*Swm E* |
|---|---|---|
| 7 (gwerth ardrethol) | 0 i 6,000 | 5,000,000 |
| 7 (gwerth ardrethol) | 6,001 i 12,000 | Cyfrifir yn unol â pharagraff (3) o'r erthygl hon |
| 8 (gofal plant) | 0 i 100,000 | 5,000,000 |
| 9 (swyddfa bost) | 0 i 9,000 | 5,000,000 |
| 9 (swyddfa bost) | 9,001 i 12,000 | 2" |

(b) hepgorer paragraff (4).

*Mark Drakeford*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, un o Weinidogion Cymru

15 Tachwedd 2018

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n cael ei wneud o dan adrannau 43(4B)(b) a 44(9)(b) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"), yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1229 (Cy. 293)) ("Gorchymyn 2017"). Mae Gorchymyn 2017 yn darparu ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi annomestig ("y cynllun") sy'n gymwys i gategorïau penodol o hereditamentau.

Effaith y diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yw eithrio pob hereditament sy'n bodloni'r amodau ("yr amodau gofal plant") a nodir yn erthygl 8 o Orchymyn 2017 rhag talu ardrethi annomestig.

Caiff erthygl 5 o Orchymyn 2017 ei diwygio er mwyn cynyddu uchafswm y gwerth ardrethol ar gyfer hereditamentau sy'n bodloni'r amodau gofal plant i £100,000. Golyga hyn bod pob hereditament sydd â gwerth ardrethol o £100,000 neu lai, sy'n bodloni'r amodau gofal plant, yn gymwys ar gyfer rhyddhad o dan y cynllun. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn cadw uchafswm presennol y gwerth ardrethol (o £12,000) mewn perthynas â hereditamentau sy'n bodloni'r amodau gwerth ardrethol yn erthygl 7 a'r amodau swyddfa bost yn erthygl 9.

Caiff Gweinidogion Cymru ragnodi E at ddibenion Deddf 1988. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio E i 5,000,000 ar gyfer pob hereditament sy'n bodloni'r amodau gofal plant. Effaith hyn, pan gaiff ei fewnosod yn y fformiwla o fewn adran 43(4A)(b) o Ddeddf 1988, yw eithrio pob hereditament sy'n bodloni'r amodau gofal plant rhag talu ardrethi annomestig. Mae erthygl 11(4) o Orchymyn 2017 wedi ei hepgor, sy'n cael yr effaith o ddileu'r cynllun rhyddhad wedi ei dapro blaenorol ar gyfer hereditamentau sy'n bodloni'r amodau gofal plant.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.